Trochi defaid

Cyngor i ffermwyr ac eraill sy'n ymwneud â throchi defaid



Mae hwn yn fersiwn gwe-gyfeillgar o daflen AS29(rev3), a adolygwyd 07/07

Cyflwyniad

Bydd y daflen hon yn helpu ffermwyr, gweithwyr fferm ac eraill sy'n ymwneud â throchi defaid i ddiogelu eu hiechyd a'r amgylchedd. Mae'n nodi sut y dylid cynllunio a chynnal y gwaith, yn cynnwys sut mae asesu'r risgiau o dan Reoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH) 2002 (fel y'u diwygiwyd) a phenderfynu pa gamau diogelu sydd eu hangen. Mae hefyd yn rhoi cyngor ar sut mae cael gwared ar drochdrwyth defaid a ddefnyddiwyd a chynhwysyddion yn ddiogel.

Cyn cychwyn arni: Gweithredwyr cymwys

Mae'n **rhaid** i bawb sy'n ymwneud â'r gwaith trochi gael eu hyfforddi'n gywir ac yn gymwys. Mae hyn yr un bwysig p'un a ydych yn defnyddio trochdrwyth defaid organoffosfforaidd (OP) neu drochdrwyth pyrethroid synthetig (SP).

O dan Reoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2006 mae'n drosedd defnyddio trochdrwyth defaid oni wneir hyn naill ai o dan oruchwyliaeth neu ym mhresenoldeb unigolyn sy'n meddu ar Dystysgrif Cymhwyster wrth Ddefnyddio Trochdrwythi Defaid yn Ddiogel, neu gan yr unigolyn ei hun.

Dyfernir tystysgrifau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon gan yr NPTC, a chan yr NPTC neu Wasanaeth Profi Sgiliau'r Alban yn yr Alban. Mae'r prawf tystysgrif yn cwmpasu diogelwch pobl, anifeiliaid a'r amgylchedd o ran cynllunio, paratoi, defnyddio a chael gwared ar drochdrwythi.

Mae'r cyrsiau hyfforddi ar gael gan grwpiau hyfforddi a cholegau lleol. Ceir rhagor o wybodaeth am hyfforddiant yng nghanolfannau asesu'r NPTC.

Yn ogystal â gofynion y gweithrediadau trochi, mae'n **rhaid** i unrhyw un sy'n **prynu** trochdrwyth defaid organoffosfforaidd (OP) neu drochdrwyth pyrethroid synthetig (SP) feddu ar Dystysgrif Cymhwyster wrth Ddefnyddio Trochdrwythi Defaid yn Ddiogel yr NPTC **neu** fodloni'r dosbarthwr sy'n gwerthu'r trochdrwyth eu bod yn gweithio ar ran rhywun sy'n meddu ar y Dystysgrif.

Beth sydd angen i mi ei wneud er mwyn cydymffurfio â COSHH?

Mae'n rhaid i chi gymryd camau digonol i atal neu reoli risgiau i'ch iechyd yn deillio o ddefnyddio trochdrwythi defaid a thriniaethau milfeddygol cysylltiedig yn eich gwaith. Rhaid i chi:

- gynnal asesiad o'r risgiau ('asesiad COSHH') drwy ganfod pa effeithiau niweidiol y gallai'r cynnyrch ei gael, os o gwbl, ac amcangyfrif nifer y bobl a allai ddod i gysylltiad ag ef;
- os oes mwy nag un cynnyrch i drin y defaid, dylech ystyried defnyddio'r cynnyrch lleiaf peryglus i iechyd pobl;
- defnyddiwch fesurau rheoli er mwyn lleihau ei gysylltiad â phobl eraill. Sicrhewch eu bod yn gweithio ac yn cael eu defnyddio'n rheolaidd gan staff;
- parhau i roi gwybod i bawb am y risgiau a'r rhagofalon sydd eu hangen, gan ymgynghori â chyflogeion a chynrychiolwyr diogelwch os oes gennych rai yn eich busnes;
- adolygu pob un o'r uchod yn rheolaidd neu os bydd natur y gwaith yn newid.

Asesiad COSHH

Diben yr asesiad yw eich galluogi i wneud penderfyniadau dilys am y mesurau sydd eu hangen i atal neu reoli amlygiad i sylweddau peryglus i iechyd yn deillio o weithio gyda throchdrwythi defaid a chynnyrch cysylltiedig yn ddigonol. Dilynwch y broses chwe cham hon:

Cam 1: A oes angen i chi drin o gwbl?

Dim ond os bydd eu gwir angen am resymau iechyd anifeiliaid y dylech ddefnyddio triniaethau. Ceisiwch gyngor gan filfeddyg lle y bydd angen. Peidiwch byth â thrwytho defaid at ddibenion cosmetig.

Ystyriwch:

- Beth yw'r parasit (ee gwyddonyn y clafr, cleren chwythu, trogod, hislau neu lau)?
- A oes problem yn eich praidd neu yn eich ardal?
- A yw eich praidd yn gaeëdig neu'n agored?
- A yw amodau tywydd yn debygol o helpu'r parasit i ledaenu?

Cam 2: Edrychwch am y peryglon

Os oes rhaid i chi drin defaid am resymau iechyd anifeiliaid, dylech ystyried defnyddio'r cynnyrch lleiaf peryglus i iechyd pobl.

Mae pob cynnyrch trochi yn cynnwys sylweddau peryglus. Os na chânt eu trin yn gywir, gallant eich gwneud yn sâl, niweidio'r defaid neu lygru'r amgylchedd. Mae'r niwed y gall cynhyrchion ei achosi yn dibynnu ar ba gynhwysyn gweithredol sydd ynddynt (gweler y label) a sut y cânt eu defnyddio. Gall sylweddau peryglus fynd i mewn i'r corff mewn tair ffordd:

- drwy'r croen;
- drwy eu llyncu (e.e. os caiff bwyd a diod pobl ei halogi); neu
- drwy anadlu tarth neu erosol â sylweddau peryglus ynddo.

Wrth drochi, neu drin defaid ar ôl iddynt gael eu trochi, y perygl mwyaf i chi yw y gallech amsugno cynhyrchion drwy'ch croen wrth i hydoddiant y trochdrwyth neu'r defaid dasgu ar eich croen neu wrth i'r croen ddod i gysylltiad â'r cnu.

Cam 3: Ystyriwch bwy a allai gael eu niweidio a sut

Yn ogystal â'r rheini sy'n trochi, dylech ystyried pobl a allai gael eu heffeithio hefyd (e.e aelodau o'r teulu, y rheieni sy'n trin y defaid ar ôl iddynt gael eu trochi, gan gynnwys mewn marchnadoedd, cneifwyr ac ati). Os ydych yn gontractwr, mae'n debygol y bydd mwy o risg i chi os byddwch yn defnyddio symiau mawr o drochdrwyth yn rheolaidd. Gall trochi a gwaredu diofal halogi cyflenwadau dŵr hefyd.

Cam 4: Dewis y driniaeth

Wrth i ni ysgrifennu'r daflen hon, mae'r awdurdodiad marchnata ar gyfer trochdrwythi pyrethroid synthetig wedi'i atal hyd nes y bydd rhagor o wybodaeth am y risg i'r amgylchedd ar gael. Felly, fe'ch cynghorir i wirio statws y cynhyrchion hyn gyda'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol (VMD) cyn penderfynu eu defnyddio. Ewch i www.vmd.gov.uk i gael y newyddion diweddaraf am drochdrwythi pyrethroid synthetig neu ffoniwch VMD ar 01932 336911.

Wrth benderfynu pa gynnyrch i'w ddefnyddio dylech ystyried beth yw'r opsiwn gorau er mwyn:

- atal/rheoli'r parasitiaid;
- lleihau'r risgiau i bobl a'r amgylchedd.

Ystyriwch ddefnyddio dulliau awdurdodedig amgen yn hytrach na throchdrwythi ar gyfer cafnau trochi, e.e:

- cynnyrch y gellir ei arllwys dros yr anifail er mwyn rheoli clêr chwythu mewn ardal sy'n rhydd o'r clafr;
- chwistrelliad i reoli'r clafr;
- cynnyrch y gellir ei arllwys dros yr anifail er mwyn rheoli trogod.

Mae pob cynnyrch trochi defaid yn cynnwys sylweddau peryglus, fodd bynnag mae trochdrwythi pyrethroid synthetig yn fwy peryglus i fywyd y dŵr. Mae'n haws lleihau amlygiad a diogelu'r amgylchedd os defnyddir dewisiadau megis cynnyrch y gellir ei arllwys dros yr anifail neu chwistrelliadau yn hytrach na defnyddio cafnau trochi. Pa gynnyrch bynnag y byddwch yn ei ddefnyddio, dilynwch y cyfarwyddiadau ar y label yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn effeithiol.

Gwiriwch:
- pa rai o'r cynhyrchion awdurdodedig sy'n effeithiol o ran mynd i'r afael â'r broblem yr ydych yn ceisio ei thrin (gweler Tabl 1);
- a yw'r driniaeth yn briodol ar gyfer maint eich praidd a'r ffordd yr ydych yn ei reoli;
- eich bod wedi dewis y cynnyrch effeithiol mwyaf diogel;
- eich bod wedi cynllunio i'w waredu'n ddiogel cyn i chi ddechrau.

Os nad ydych yn siŵr pa gynnyrch i'w ddefnyddio, ceisiwch gyngor gan eich llawfeddyg milfeddygol.

Tabl 1 Beth sy'n gwneud beth?

Cynhwysyn Gweithredol	**Rheoliadau**			
Trochdrwythi ar gyfer cafnau trochi	**Y Clafr**	**Clêr Chwythu**		**Trogod/hislau/llau**
Diazinon (OP)	Ie	Ie		Ie
High-Cis Cypermethrin (PS)	Ie	Ie		Ie
Arllwysiadau (dim OP)		(Atal)	(Triniaeth)	
Cyromazine	Nage	Ie	Nage	Nage
Deltamethrin	Nage	Nage	Ie	Ie
Alpha-Cypermethrin	Nage	Ie	Ie	Ie
High-Cis Cypermethrin	Nage	Ie	Ie	Ie
Dicyclanil	Nage	Ie	Nage	Nage
Pigiadau (dim OP)				
Ivermectin	Ie	Nage	Nage	Nage
Doramectin	Ie	Nage	Nage	Nage
Moxidectin	Ie	Nage	Nage	Nage

Allwed:
OP = Organoffosfforaidd
PS = Pyrethroid Synthetig
Ie = Awdurdodiad marchnata ar gyfer rheoli
Nage = Dim awdurdodiad marchnata ar gyfer rheoli

Mae rhai plaladdwyr amaethyddol yn cynnwys cynhwysion organoffosfforaidd neu byrethroid synthetig weithredol. Nid awdurdodir i'r cynhyrchion hyn gael eu defnyddio fel meddyginiaethau milfeddygol ac ni ddylid eu defnyddio at y diben hwnnw byth.

Cam 5: Pa reoliadau sydd eu hangen arnoch?

Cyfleusterau trochi a gynlluniwyd ac a leolwyd yn gywir
Mae gan gyfleusterau da:

- awyriad digonol. Mae trochi y tu mewn i adeiladau yn cynyddu'r risg o anadlu tarth (yn ogystal â pheri pryder i ddefaid a gweithredwyr) **felly mae'n well trochi defaid yn yr awyr agored**. Fodd bynnag, gall to helpu i atal dŵr glaw rhag achosi i'r cafn trochi orlifo;
- tramwyfa i arwain y defaid i'r trochdrwyth;
- llethr mynediad i leihau tasgu wrth i'r defaid ddisgyn i'r cafn trochi;
- y cafn trochi lleiaf posibl i'ch praidd. Mae hyn yn lleihau cost gosod, swm y cemegyn sydd ei angen a'r swm o hen drochdrwyth y bydd angen cael gwared arno;
- cafn trochi heb unrhyw ollyngiadau na thyllau draenio, e.e. yn gynllun un darn parod. Dylech archwilio'r cafn cyn trochi ac atgyweirio unrhyw graciau neu dyllau;
- llociau draenio i ffwrdd o'r gweithredwr trochi gyda llawr anhydraidd ar oledd er mwyn sicrhau bod draeniadau yn rhedeg yn ôl i mewn i'r cafn ac sy'n ddigon mawr i ganiatáu i'r defaid ddraenio'n iawn;
- cyflenwad o ddŵr glân drwy bibell i ychwanegu at y trochdrwyth, dihalogi a rinsio. Sicrhewch na all y trochdrwyth fynd yn ôl drwy'r bibell drwy osod falf ailwirio.

Dylid lleoli cafnau trochi o leiaf 10 m i ffwrdd o gyrsiau dŵr, yn cynnwys ffosydd a draeniau ac o leiaf 50 m o ffynhonnau, ffrydiau a thyllau turio. Cyn i chi ddechrau, dylech ystyried ble y bydd y defaid yn draenio a sut y byddwch yn gwacáu'r cafn trochi.

Cyfleusterau trochi symudol
Mae'n rhaid lleoli trochfeydd symudol yn ofalus bob tro y cânt eu defnyddio gan eu bod yn cyflwyno risgiau ychwanegol. Dilynwch y canllawiau ar gyfer y cyfleusterau hyn yng Nghod Diogelu Dŵr Daear Defra (gweler 'Canfod mwy'). Er enghraifft:

- Dim ond os oes lloriau caled neu ddraeniad seliedig neu systemau casglu gwastraff y dylech ddefnyddio buarthau. Mae'n bosibl y bydd cemegau trochi yn diferu oddi ar ddefaid sy'n ymadael â systemau symudol, felly mae'n rhaid i chi baratoi i gasglu'r rhain yn yr un modd â chafnau trochi sefydlog.
- Mae caeau yn dderbyniol fel safleoedd os ydynt yn bodloni'r pellteroedd gwahanu oddi wrth gyrsiau dŵr, ffynhonnau, ffrydiau a thyllau turio fel y'u disgrifir ar gyfer cyfleusterau sefydlog, os yw'r safle yn wastad neu ar rywfaint o oleddf ac yn rhydd o lifogydd a chywasgiad.
- Gwiriwch yr holl offer yn drwyadl cyn i chi ei ddefnyddio er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n gywir ac er mwyn canfod ôl difrod, cyrydu neu ddefnydd gormodol.
- Peidiwch â symud unrhyw system symudol sy'n cynnwys unrhyw hydoddiant trochi oni fydd wedi'i chynllunio'n benodol i gael ei symud.
- Mae'n rhaid i chi gydweithredu gyda chontractwyr trochi symudol o ran materion iechyd a diogelwch. Er enghraifft, dylech drefnu ymlaen llaw pwy sy'n gyfrifol am gael gwared ar hen drochdrwyth yn ddiogel.



Ffigur 1 Cafn trochi defaid nodweddiadol

Rheoliadau peirianyddol
Defnyddiwch reoliadau ffisegol syml er mwyn sicrhau nad yw'r trochdrwyth yn dod i gysylltiad â gweithredwyr ac er mwyn osgoi llygredd, er enghraifft:

- sgrin ar draws y llethr mynediad trochi er mwyn atal tasgiadau;
- byrddau neu sgriniau tasgu o'r un uchder â gwasg y gweithredwyr lle y byddai gweithredwyr yn debygol o gael eu tasgu fel arall;
- sgriniau ochrau uchel ar y ffordd allan o'r drochfa fel na fydd diferion o ddefaid sy'n ysgwyd yn dod i gysylltiad â'r gweithredwyr;
- gatiau lloc sy'n draenio y gellir eu cau/eu hagor drwy eu rheoli o bell, e.e. gyda rhaff a phwli;
- bachyn â charn metel. Mae amgarn rwber ar ben y bachyn yn ei gwneud yn haws ei drin ac yn osgoi difrod i fenig y gweithredwr.



Ffigur 2 Mae'n rhaid i weithredwyr wisgo PPE addas

Offer amddiffynnol personol (PPE)
Yn ogystal â defnyddio rheoliadau peirianyddol, mae'n rhaid i weithredwyr wisgo PPE i amddiffyn eu hiechyd. Pam fyddwch yn delio â throchdrwythi crynodol gwisgwch:

- menig rwber synthetig heb eu leinio (steil maneg ddur ar gyfer gwaith trwm neu nitril o leiaf 0.5mm o drwch ac o leiaf 300 mm o hyd). Mae prynwyr trochdrwythi organoffosfforaidd yn gymwys i dderbyn dau bâr o fenig a cherdyn cyfarwyddyd laminedig gan eu cyflenwr ar adeg eu prynu;
- welintons;
- legins neu drowsus sy'n dal dŵr wedi'u gwneud o nitril neu PVC;
- cot neu ffedog sy'n dal dŵr wedi'i gwneud o nitril neu PVC dros siwt taniwr neu rywbeth tebyg;
- sgrin wyneb.

Wrth weithio gyda throchdrwyth gwanhaëdig:

- gwisgwch yr un menig, esgidiau, dillad amddiffyn coesau a chorff ag y byddwch yn eu gwisgo ar gyfer trochdrwythi crynodedig;
- os byddwch yn gwisgo sgrin wyneb neu het sy'n dal dŵr yn ystod y gwaith trochi bydd yn amddiffyn eich wyneb, eich pen a'ch gwallt rhag hylif yn tasgu.

Cofiwch:

- Dylai PPE fod yn bwrpasol, yn lân ac yn faint da.
- Gall trochdrwyth crynodedig fynd drwy fenig a dillad amddiffynnol. Dylid ei olchi oddi ar PPE ar unwaith.
- **Os bydd llawer o drochdrwyth yn mynd ar eich croen, PPE neu ddillad personol, golchwch eich croen ar unwaith a gwisgwch ddillad a PPE glân.**
- Tynnwch a newidiwch PPE sydd wedi'u difrodi megis menig wedi cracio, dillad sy'n dal dŵr sydd wedi rhwygo neu ddillad na ellir eu cau yn iawn, a welintons sy'n gadael dŵr i mewn.
- Dylech osgoi cyffwrdd ag arwyneb PPE a allai fod wedi ei halogi â chemegau trochi, e.e wrth dynnu menig.
- Gwisgwch y trowsus neu'r legins dros y welintons. Yn gyffredinol dylech wisgo llewys sy'n dal dŵr dros y menig a llewys oferôls y tu mewn i'r menig.
- Nid yw siwmperi gwlân, crysau-T, tracwisgoedd ac ati yn cadw trochdrwyth oddi ar y croen. Dylech wisgo'r PPE a argymhellwyd bob amser.
- Gwisgwch ddillad amddiffynnol wrth atgyweirio neu wrth lanhau offer a halogwyd, yn enwedig os yw wedi'i ddefnyddio gyda throchdrwyth crynodol.
- Defnyddiwch y PPE yr ydych yn ei ddefnyddio ar gyfer trochi os oes rhaid i chi weithio gyda defaid sy'n dal i fod yn wlyb ar ôl iddynt gael eu trochi.
- Yn yr wythnosau ar ôl y trochi, mae ôl y trochi yn parhau ar y defaid. Os oes rhaid i chi gyffwrdd â hwy, gwisgwch oferôls a welintons. Mae hefyd yn arfer da gwisgo menig synthetig tafladwy o ansawdd da. Os yw'r defaid yn wlyb dylech wisgo trowsus a chot sy'n dal dŵr hefyd.
- Dylech ddarparu man storio digonol ar gyfer PPE i'w diogelu rhag halogiad, colled neu ddifrod. Dylai unrhyw fan storio PPE fod ar wahân i unrhyw fannau a ddarperir ar gyfer dillad arferol.

Mae'n rhaid i unrhyw PPE a wnaethpwyd ar ôl 30 Mehefin 1995 fod â marc CE, sy'n golygu ei fod wedi'i brofi a'i ardystio o dan gyfraith farchnata'r Gymuned Ewropeaidd. Ni chaiff ei farchnata at ddibenion trochi'n arbennig ac mae'n **rhaid** i chi sicrhau ei fod yn addas at y diben hwnnw - os oes gennych unrhyw amheuaeth, gofynnwch i'r gwneuthurwr neu i'ch cyflenwr. Gellir parhau i ddefnyddio PPE a wnaethpwyd cyn hyn cyn belled â'i fod yn darparu diogelwch digonol.

Offer amddiffynnol anadlol (RPE)
Nid oes angen RPE os caiff defaid eu trochi yn unol â'r canllawiau yn y daflen hon. Fodd bynnag, dylech ystyried defnyddio RPE os na allwch osgoi'r tasgau canlynol ac os oes awyriad gwael:

- arllwys crynodiad neu lanhau unrhyw hylif a gollwyd mewn man cyfyngedig;
- trochi y tu mewn i adeilad neu ardal gaeëdig arall;
- gweithio gyda defaid sydd newydd gael eu trochi mewn amodau awyr llonydd.

Dylai'r RPE fod yn anadlydd llawn neu anadlydd hanner mwgwd gyda hidlwr sy'n gallu cael gwared ar ronynnau a nwy/tarth. Dylai'r hidlwr gydymffurfio â Safon Brydeinig BS EN 14387 (gweler 'Canfod mwy.')

Cam 6: Adolygu eich asesiad COSHH

- Dylech adolygu eich asesiad os bu newidiadau arwyddocaol, megis defnyddio cynhyrchion gwahanol, dulliau eraill o drin yr anifeiliaid, neu systemau gwaith eraill.
- Dylech ystyried unrhyw gynhyrchion risg is neu offer trin a fydd ar gael a defnyddiwch hwy yn eu lle os byddant yn gwneud y tro ac yn lleihau'r risg o anaf neu salwch.

Dylech ymgynghori â chynrychiolwyr a chyflogeion diogelwch gweithwyr os ydynt gennych os oes newid i'r arfer gwaith sydd â goblygiadau iechyd a diogelwch.

Arfer gweithio da

- Dylid cyflawni tasgau stoc megis tocio traed **cyn** trochi.
- Dylid ond prynu digon o drochdrwyth i'w ddefnyddio'n syth a'i storio mewn man diogel fel y bydd yn bosibl atal unrhyw ollyngiadau.
- Dylid cynnal a chadw'r cafn trochi er mwyn osgoi gollyngiadau. Chwiliwch am graciau bob tro.
- Darllenwch label y cynnyrch, dilynwch gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a **pheidiwch â'i ddefnyddio ar ôl y dyddiad terfyn ar y label.** Mae'n rhaid cael gwared ar unrhyw gynnyrch sydd wedi mynd y tu hwnt i'r dyddiad terfyn drwy ddefnyddio contractwr gwaredu gwastraff trwyddedig.
- Dylech osgoi trochi yn ystod tywydd poeth, mewn awyr llonydd neu'n ystod tywydd rhewllyd lle bynnag y bo'n bosibl, mae pob un o'r rhain yn ddrwg i'r defaid neu'r gweithredwyr a gallai gwres gormodol ei gwneud yn fwy anodd i wisgo PPE.
- Peidiwch â throchi defaid sy'n sâl, yn feichiog, yn dioddef tyndra, yn llawn bwyd neu yn wlyb iawn.
- Arllwyswch y crynodiad yn ofalus yn yr awyr agored neu mewn lle wedi'i awyru'n dda a dylech osgoi unrhyw hylif rhag tasgu arnoch chi neu eich PPE neu ar ddraeniau ac ati.
- Sicrhewch fod y trochdrwyth wedi'i gymysgu'n dda ac y caiff trochdrwyth o'r cryfder cywir ei ddefnyddio drwy gydol y gweithrediad trochi.
- Gweithiwch ar gyflymder cyson er mwyn osgoi tasgu gormodol. Caniatewch ddigon o seibiannau - mae gweithredwyr sydd wedi blino yn achosi mwy o dasgu.
- Pa bryd bynnag y byddwch yn cael saib, ymollchwch yn ofalus - yn arbennig cyn bwyta, yfed, ysmygu neu ddefnyddio'r toiled.
- Mae'n arfer da peidio â chneifio defaid am dri mis ar ôl eu trochi.

Ffigur 3 Dylech ddefnyddio system drosglwyddo gaeëdig (CTS) ar gyfer trochdrwythi Organoffosfforaidd

Peidiwch byth â:

- gadael crynodiad trochi mewn cynhwysydd heb ei farcio;
- defnyddio eich dwylo, breichiau neu draed i drochi defaid;
- caniatáu i bobl heb eu hyfforddi i helpu gyda'r trochi;
- caniatáu i unrhyw un nad yw'n gwisgo PPE ddod yn agos i'r trochi;
- defnyddio trochdrwyth drwy gnapsach neu chwistrellydd llaw.

Systemau trosglwyddo caeëdig

Dim ond gyda systemau trosglwyddo caeëdig (CTSau) y dylid defnyddio trochdrwythi defaid Organoffosfforaidd. Dyfeisiau yw'r rhain a gynlluniwyd er mwyn lleihau'r risg o weithredwyr yn dod i gysylltiad â'r crynodiad trochi tra bod y cafn trochi yn cael ei lenwi. Mae sawl math o system drosglwyddo gaeëdig (CTS) ar gael. Bydd label y cynnyrch, y daflen ddata neu'r cerdyn cyfarwyddyd yn egluro pa fath o system drosglwyddo gaeëdig a ddewisir gan y gwneuthurwr i'w ddefnyddio ar gyfer y cynnyrch penodol hwnnw. Dilynwch gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr yn ofalus a sicrhewch y caiff PPE digonol ac addas ei wisgo wrth ddefnyddio'r system drosglwyddo gaeëdig (CTS).

Ffigur 4 Enghrraifft o becyn â chynhwysion sy'n toddi mewn dŵr

Mathau o Systemau Trosglwyddo Caeëdig ar gyfer Trochdrwythi Organoffosfforaidd

Pecynnau o grynodiad trochi Organoffosfforaidd sy'n toddi mewn dŵr

- Darperir y trochdrwyth sy'n toddi mewn dŵr mewn pecynnau sydd y tu mewn i gwdyn o fewn bag ffoil alwminiwm.
- Cymerwch ofal wrth agor naill ai'r bag ffoil neu'r cwdyn y tu mewn iddo sy'n cynnwys y pecyn.
- Peidiwch â defnyddio siswrn, cyllell nac unrhyw wrthrych miniog i agor y bag ffoil neu'r cwdyn, ond defnyddiwch y llinell dyllog a ddarparwyd.
- Wrth roi'r pecyn yn y cafn trochi cymerwch ofal er mwyn osgoi tasgu.
- Peidiwch â thyllu'r pecyn er mwyn gwagio'r cynnwys.

Ffigur 5 Cit CIS

Dyfeisiau pwmpio ar gyfer trosglwyddo crynhoad trochi o un cynhwysydd i'r cafn trochi

- Darperir dyfeisiau pwmpio ar ffurf cit gwagio y gellir ei ailddefnyddio.
- Ar ôl i chi eu defnyddio at ddibenion trochi ni ddylech eu defnyddio at unrhyw ddiben arall.
- Mae'n rhaid i chi ddefnyddio, symud, golchi a storio'r cit yn unol â'r cyfarwyddiadau.
- Golchwch gynhwysion gwag yn unol â'r cyfarwyddiadau a nodir yn y cit.

Ar ôl trochi

Dylech adael i ddefaid ddraenio'n drwyadl yn y lloc draenio. Ni ddylech adael i ddefaid sydd newydd gael eu trochi halogi dyfrgyrsiau. Efallai y bydd hyn yn digwydd os oes gan y defaid fynediad i nentydd neu afonydd yn syth ar ôl iddynt gael eu trochi, felly sicrhewch fod ganddynt ffynhonnell arall o ddŵr yfed. Ni ddylech yrru neu rydio defaid sydd newydd gael eu trochi ar draws afonydd neu nentydd.

Ar ôl cwblhau'r gwaith trochi, neu pan fyddwch yn rhoi'r gorau iddi i gael pryd o fwyd, i ysmygu neu i gymryd math arall o saib:

- gorchuddiwch neu ffensiwch y cafn trochi yn ddiogel os bydd yn cael ei adael heb neb i ofalu amdano a chadwch blant i ffwrdd. Mae plant wedi boddi mewn cafnau trochi felly sicrhewch y cymerir rhagofalon addas drwy gydol y flwyddyn, nid ar adeg y trochi yn unig;
- golchwch offer fel y bachyn trochi;
- dylid diheintio PPE a thynnu dillad amddiffynnol ar ôl golchi eitemau sy'n dal dŵr yn drwyadl. Archwiliwch a newidiwch unrhyw PPE a ddifrodwyd. Mae'n rhaid trin unrhyw eitemau y mae angen cael gwared arnynt fel pe baent yn wastraff halogedig (gweler yr adran ar waredu);
- golchwch eich dwylo ac unrhyw groen wedi'i amlygu, e.e eich wyneb a'ch gwddf gyda sebon a dŵr glân sy'n llifo;
- peidiwch â chaniatáu i rinsiadau neu ddŵr golchi halogi dŵr daear neu ddyfrgyrsiau;
- peidiwch â gweithio ymhlith defaid sydd newydd eu trochi na'u trin oni bai eich bod yn gwisgo'r PPE a ddisgrifir yn yr adran 'Offer amddiffynnol personol';
- golchwch eich dwylo ac unrhyw groen wedi'i amlygu ar ôl trin defaid a drochwyd yn ddiweddar;
- dychwelwch unrhyw grynhoad trochi nas defnyddiwyd i gyfleuster storio addas, e.e. storfa cemegau fferm a adeiladwyd yn bwrpasol sy'n cwrdd â'r gofynion a amlinellir yn Nhaflen Gwybodaeth Amaethyddol HSE AIS16 (gweler 'Canfod mwy').

Cofnodion

Dylai asesiadau COSHH gael eu cofnodi yn ysgrifenedig oni ellir eu hailadrodd a'u hegluro yn hawdd. Mae'n rhaid i gyflogwyr â phump neu fwy o gyflogeion gofnodi'r canfyddiadau arwyddocaol.

Mae'n rhaid cadw cofnodion o driniaethau a roddir er mwyn sicrhau y caiff rheoliadau diogelwch bwyd eu diwallu. Os byddwch yn ychwanegu enwau'r bobl a wnaeth y gwaith, mae'r cofnodion hyn yn arfer da fel cofnod o amlygiad posibl.

Gwaredu

Mae trochdrwythi defaid Organoffosfforaidd a Pyrethroid Synthetig yn niweidiol i fywyd gwyllt a'r amgylchedd.

- Os na chânt eu trin a'u gwaredu yn ofalus gellir llygru dyfrgyrsiau a gwarchodfeydd dŵr daear.
- Gall symiau bach iawn o unrhyw grynodiad trochi halogi cyfeintiau mawr o ddŵr.
- Mae trochdrwythi yn wenwynig i fywyd gwyllt afonydd a gallant wenwyno anifeiliaid, pysgod a chreaduriaid eraill.
- Mae'n hanfodol cymryd rhagofalon digonol ac addas cyn dechrau trochi, yn ystod trochi ac ar ôl trochi gan fod trochdrwyth a gollir ar lawr neu drochdrwyth a waredir ar dir anaddas yn gallu halogi cyflenwadau dŵr yfed.

- Mae'n drosedd llygru dyfroedd rheoledig (gan gynnwys dyfroedd daear) gyda throchdrwyth defaid. Mae hefyd yn drosedd cael gwared ar drochdrwyth defaid ar dir heb gael awdurdod i wneud hynny.

Mae'n rhaid i Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru a Lloegr neu Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban (SEPA) awdurdodi gwaith gwaredu unrhyw drochdrwyth a ddefnyddiwyd ar dir cyn cychwyn ar y broses o'i waredu. Bydd manylion llawn am ofynion y broses waredu yn yr awdurdodiad. Cysylltwch ag Asiantaeth yr Amgylchedd neu Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban (SEPA) am ragor o fanylion (gweler 'Cysylltiadau defnyddiol').

Cael gwared ar drochdrwyth a ddefnyddiwyd

Mae'n **rhaid** i chi atal neu reoli amlygiad yn ddigonol wrth gael gwared ar drochdrwyth a ddefnyddiwyd. Gwagiwch y cafn trochi cyn gynted ag y bo modd, gan ddefnyddio pwmp yn ddelfrydol. Gwisgwch PPE i osgoi cysylltiad â'ch croen. **Peidiwch byth â gwagio trochdrwyth a ddefnyddiwyd i mewn i ddyfrgyrsiau.**

Dilynwch y cyfarwyddiadau ar yr awdurdodiad er mwyn helpu i leihau'r risg o halogi'r amgylchedd. Bydd y cyngor canlynol yn eich helpu i osgoi llygru dŵr:

- Peidiwch â defnyddio mwy na 5000 litr o drochdrwyth fesul hectar (450 o alwyni/erwau). Fel arfer bydd angen i chi ychwanegu tri chwarter o ddŵr neu fiswail ato er mwyn cyflawni hyn os ydych yn defnyddio offer megis tancer biswail.
- Dewiswch ddarn o dir sydd mor wastad â phosibl
  - peidiwch â'i daenu ar dir ar oleddf pan fydd y pridd yn llawn dŵr.
- Gadewch stribyn heb ei drin o leiaf 10m o led gerllaw pob dyfrgwrs. Peidiwch â'i osod o fewn 50m o ffrydiau, ffynhonnau neu dyllau turio.
- Peidiwch â defnyddio caeau:
  - sy'n debygol o gael llifogydd, sydd o dan ddŵr neu wedi rhewi'n galed;
  - sydd â draeniau pibell neu draeniau tyrchod effeithiol;
  - lle mae'r pridd wedi cracio neu'n gywasgedig iawn;
  - lle mae'r isbridd wedi hollti.
- Peidiwch â'i daenu ar dir sy'n bwysig i fywyd gwyllt neu ar dir y mae gan bobl neu anifeiliaid fynediad iddo.
- Ystyriwch drin y trochdrwyth a ddefnyddiwyd cyn cael gwared arno er mwyn lleihau'r risg i'r amgylchedd. Mae angen gwahanol ddulliau trin ar gyfer gwahanol gynnyrch trochdrwyth a gall defnyddio'r un anghywir gynyddu'r risgiau. Gofynnwch i'r gwneuthurwr neu'r cyflenwr a chofiwch y bydd angen i chi ddilyn y cyngor gwaredu yn y daflen hon, yn yr awdurdodiad ac mewn unrhyw gyfarwyddyd cydnabyddedig arall.
- Dylech osgoi creu pyllau o drochdrwyth wrth ei daenu ar dir.
- Ni ddylai stoc bori ar y tir am o leiaf un mis.
- Fel arall, neu os na fydd tir addas ar gael, storiwch y trochdrwyth rydych wedi'i ddefnyddio mewn tanc storio priodol, wedi'i gynllunio i ddal unrhyw ollyngiadau, a'i waredu drwy ddefnyddio contractwr gwaredu gwastraff trwyddedig.

Nid yw ffosydd cerrig bellach yn ddull derbyniol o gael gwared ar drochdrwyth rydych wedi'i ddefnyddio gan eu bod yn cynrychioli risg annerbyniol i ddyfroedd daear a dyfroedd arwyneb. Peidiwch â chreu ffosydd cerrig newydd ar gyfer gwaredu trochdrwyth a ddefnyddiwyd.

Gwaredu trochdrwyth crynodol

Efallai y bydd eich cyflenwr yn derbyn cynwysyddion heb eu hagor a ddychwelir ato. Mae'n **rhaid** i gontractwr gwaredu gwastraff trwyddedig gael gwared ar grynodiad nad oes ei angen.

Gwaredu cynwysyddion gwag

Golchwch hwy o leiaf dair gwaith a defnyddiwch y golchiadau i ychwanegu at y cafn trochi. Dylech eu gwasgu neu eu tyllu er mwyn atal ailddefnydd ond ceisiwch gadw'r label yn ddarllenadwy. Ni ddylech gladdu cynwysyddion gwag ar y safle nac ar dir y fferm. Mae'n rhaid cael gwared arnynt ar safle gwaredu gwastraff trwyddedig. Cysylltwch â'ch awdurdod gwaredu gwastraff lleol i gael manylion am sut i wneud hyn.

Dylid cael gwared ar ddillad a PPE a halogwyd

- Rhowch bob eitem yn ddiogel mewn cynwysyddion neu fagiau plastig caeëdig er mwyn cael gwared arnynt ar safle gwaredu gwastraff trwyddedig.

Gollyngiadau

- Defnyddiwch ddeunydd sy'n amsugno megis tywod, pridd neu flawd llif i gasglu crynodiad neu drochdrwyth gwanhaëdig a ollyngir. Rhowch hwy mewn cynhwysydd caeëdig a rhowch label yn datgan ei fod i'w waredu ar safle gwaredu gwastraff trwyddedig

I gael rhagor o gyngor ar waredu, gweler 'Canfod mwy.'

Arolygu iechyd

Dylai contractwyr sy'n defnyddio trochdrwythi Organoffosfforaidd yn rheolaidd geisio cyngor ar arolygu iechyd gan feddyg sy'n gyfarwydd â risgiau'r broses ac sy'n deall egwyddorion arolygu iechyd. Gallai hyn gynnwys profi am golinesteras cyn y tymor trochi ac ailadrodd y profi os bydd effeithiau andwyol neu amlygiadau damweiniol arwyddocaol yn digwydd. Gallai samplo wrin am fetabolion Organoffosfforaidd, fel ffordd o fesur amlygiad, fod yn ddefnyddiol hefyd o ran monitro effeithiolrwydd eich mesurau rheoli.

Mae COSHH yn ei gwneud yn ofynnol i gofnod iechyd gael ei gadw pan gaiff gwaith arolygu iechyd ei gynnal. Mewn rhai amgylchiadau efallai mai cadw cofnod iechyd fydd yr unig waith arolygu iechyd y bydd ei angen. Mae hefyd yn arfer da i gofnodi manylion ynglŷn â phryd y byddwch yn defnyddio cemegau trochi, pa rai y byddwch yn eu defnyddio a phwy sy'n ymwneud â'r gwaith.

Mewn achos o ddamwain neu salwch

Os bydd unrhyw rai o'ch cyflogeion yn mynd yn sâl, ystyriwch a allai hyn ddeillio o amlygiad i gemegau trochi ac, os bydd angen, gweithredwch i atal amlygiad pellach hyd nes y bydd cyngor meddygol ar gael. Dylid annog cyflogeion sy'n mynd yn sâl i hysbysu eu meddygon eu bod yn gweithio gyda chemegau trochi. Mae'n rhaid i chi adolygu arferion gwaith a mesurau rheoli os bydd cyflogai yn mynd yn sâl o ganlyniad i'w waith.

Os bydd trochdrwyth yn mynd naill ai ar eich corff neu i mewn i'ch corff, bydd unrhyw effeithiau andwyol yn dibynnu ar y fformwleiddiad, lle yr amsugnir y cemegyn a lefel yr amlygiad.

Gyda'r canlynol gall yr effeithiau gynnwys:

- trochdrwyth pyrethroid synthetig - pinnau bach, yn arbennig ar yr wyneb, cosi gyda chroen coch blotiog, glafoerio gormodol a llygaid yn dyfrio; neu
- cemegau organoffosfforaidd - cur pen, blinder a dryswch meddwl ynghyd â golwg aneglur, chwysu, glafoerio, tyndra yn y frest, cyhyrau yn gwingo a chrampiau abdomenol. Gall effeithiau mwy difrifol gynnwys colli cydlyniad, anhawster difrifol wrth anadlu a chonfylsiynau a allai arwain at fynd yn anymwybodol heb driniaeth feddygol.

Rhoddir cyngor pwysig ar symptomau a chymorth cyntaf ar labeli cynnyrch a thaflenni data.

- Os bydd unrhyw drochdrwyth yn cael ei dasgu i'ch llygaid, dylid ei olchi allan gyda digon o ddŵr oer am o leiaf 10 munud.
- Os caiff unrhyw un ei halogi'n ddifrifol, e.e drwy syrthio i mewn i'r trochdrwyth, dylid ei drin fel achos brys. Tynnwch unrhyw ddillad sydd wedi'u halogi, golchwch unrhyw halogiad oddi ar y croen ac ewch â'r unigolyn i'r ysbyty ar unwaith.

- Os bydd unrhyw un yn teimlo'n sâl yn ystod gwaith trochi, neu o fewn 48 awr o waith trochi, dylent roi'r gorau i'r gwaith, golchi unrhyw halogiad oddi ar eu croen neu ddillad a chysylltu â meddyg cyn gynted â phosibl.
- Dylai unrhyw un sy'n ceisio cyngor meddygol fynd â manylion label y cynnyrch gyda hwy fel y bydd y meddyg yn ymwybodol pa gemegau a ddefnyddiwyd.
- Ni ddylai pobl sydd wedi cael cyngor gan eu meddyg i beidio â gweithio â chyfansoddion Organoffosfforaidd ymwneud â defnyddio trochdrwythi Organoffosfforaidd.

Defnyddio cawodydd a pheiriannau chwistrellu

Ni chymeradwyir defnyddio cynhyrchion trochi defaid a awdurdodir i'w defnyddio mewn cafnau trochi defaid mewn cawodydd defaid, peiriannau chwistrellu neu offer tebyg arall. Ni chyflwynwyd gwybodaeth i'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol (VMD) ar y risgiau i iechyd pobl a allai fod yn gysylltiedig â defnyddio cynhyrchion trochi mewn cawodydd a pheiriannau chwistrellu. Hefyd, nid yw effeithiolrwydd cynhyrchion trochi defaid a ddefnyddir drwy'r dulliau hyn yn hysbys ac efallai na fydd modd rheoli'r ectoparasitiaid i'r raddfa a ddymunir.

Hyd nes y bydd rhagor o dystiolaeth ar gael, ni all HSE argymell defnyddio cawodydd nag offer chwistrellu er mwyn defnyddio cynhyrchion a awdurdodir i'w defnyddio fel trochdrwythi ar gyfer cafnau trochi. Lle y bydd defnyddwyr offer o'r fath yn penderfynu defnyddio trochdrwythi ar gyfer cafnau trochi fel hyn bydd angen iddynt gynnal asesiad COSHH a dylent ddilyn yr arweiniad yn y daflen hon.

Cyflwyno adroddiadau

Mae'n bwysig dweud wrth eich meddyg os oes gennych unrhyw effeithiau parhaus neu hirdymor a allai fod yn gysylltiedig â throchi defaid. Os bydd eich meddyg o'r farn y gallai eich symptomau fod yn gysylltiedig ag amlygiad i drochdrwyth defaid, yna dylid rhoi gwybod am eich achos i'r Cynllun Arolygu Adweithiau Andwyol a Amheuir (SARSS) a weithredir gan y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol (VMD) drwy ddefnyddio ffurflen MLA 252A (gweler 'Cysylltiadau defnyddiol').

Dylid rhoi gwybod hefyd am unrhyw salwch ymhlith anifeiliaid o ganlyniad i amlygiad i drochdrwythi defaid i SARSS.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol (VMD) yn monitro unrhyw broblemau a allai godi gyda'r meddyginiaethau hyn ac, os oes angen, mae'n adolygu'r darpariaethau trwyddedu.

Yn ogystal â hysbysu SARSS, mae'n **rhaid** hysbysu'r HSE am achosion o wenwyno Organoffosfforaidd mewn pobl mewn achosion sydd wedi'u cadarnhau'n feddygol o dan Reoliadau Hysbysu ynghylch Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus 1995. Dylid cyflwyno adroddiadau i'r Ganolfan Gyswllt Digwyddiadau (ICC) dros y ffôn (0845 300 9923), ar ffurf ffacs (0845 300 9924) neu drwy anfon e-bost at riddor@natbrit.com.

Mae'n **rhaid** hysbysu'r EA neu SEPA am lygredd amgylcheddol (gweler 'Cysylltiadau Defnyddiol').

Cysylltiadau defnyddiol

Asiantaeth yr Amgylchedd (EA) Llinell ymholiadau cyffredinol, Ffôn: 08708 506 506 Llinell Llygredd, Ffôn: 0800 80 70 60 Gwefan: www.environment-agency.gov.uk

Scottish Environment Protection Agency (SEPA) Prif Swyddfa
Ffôn: 01786 457700 Llinell Llygredd, Ffôn: 0800 80 70 60
Gwefan: www.sepa.org.uk

Veterinary Medicines Directorate (VMD) Llinell ymholiadau cyffredinol Ffôn: 01932 336911 SARSS Ffôn: 01932 338427 Gwefan: www.vmd.gov.uk

National Proficiency Tests Council (NPTC) Ffôn: 024 7685 7300 Gwefan: www.nptc.org.uk

Yr Adran Amgylchedd Cynllunio a Chefn Gwlad (Defra) Ffôn: 08459 33 55 77 Gwefan: www.defra.gov.uk

The Scottish Executive Environment and Rural Affairs Department (SEERAD) Ffôn: 08457 741 741 neu 0131 556 8400 Gwefan: www.scotland.gov.uk

Canfod mwy

Canllawiau ar storio plaladdwyr ar gyfer ffermwyr a defnyddwyr proffesiynol eraill Taflen Wybodaeth Amaethyddol AIS16 HSE Books 1996

Cod Diogelu Dŵr Daear: Defnyddio cymysgedd dip defaid a chael gwared arno Defra Awst 2001 www.defra.gov.uk

Medical aspects of work-related exposures to organophosphates Nodyn Arweiniad Meddygol MS17 (Trydydd rhifyn) HSE Books 2000 ISBN 978 0 7176 1775 3

Prevention of environmental pollution from agricultural activity. A Code of Good Practice SEERAD www.scotland.gov.uk

Llyfryn SARSS VMD Ebrill 2003 www.vmd.gov.uk

BS EN 14387:2004 *Respiratory protective devices. Gas filter(s) and combined filter(s). Requirements, testing, marking* y Sefydliad Safonau Prydeining

Rhagor o wybodaeth

Mae cyhoeddiadau HSE sydd ar werth a chyhoeddiadau am ddim ar gael trwy archebu drwy'r post gan: HSE Books, PO Box 1999, Sudbury, Suffolk CO10 2WA Ffôn: 01787 881165 Ffacs: 01787 313995 Gwefan: www.hsebooks.co.uk (Mae cyhoeddiadau HSE sydd ar werth ar gael hefyd o siopau llyfrau a gellir llwytho taflenni am ddim i lawr o wefan HSE: www.hse.gov.uk.)

I gael gwybodaeth am iechyd a diogelwch, ffoniwch Linell Wybodaeth HSE Ffôn: 0845 345 0055 Ffacs: 0845 408 9566 Ffôn testun: 0845 408 9577 e-bost: hse.infoline@natbrit.com neu ysgrifennwch at Gwasanaethau Gwybodaeth HSE, Parc Busnes Caerffili, Caerffili CF83 3GG.

Mae'r daflen hon yn cynnwys nodiadau ar arfer da nad ydynt yn orfodol ond a allai fod yn ddefnyddiol wrth i chi ystyried yr hyn y mae angen i chi ei wneud.

© *Hawlfraint y Goron* Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn am ddim, ac eithrio at ddibenion hysbysebu, arnodi neu fasnachu. Cyhoeddwyd yn gyntaf 07/07. Cydnabyddwch y ffynhonnell fel HSE.